# Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Trefn Apelio

## Y Drefn Apelio ar gyfer Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch

Mai 2025

# Cynnwys

**Cyflwyniad 1**
Diffiniadau ........ 1
**Gwneud apêl ........ 2**
Y beirniadaethau y gellir apelio yn eu herbyn a'r seiliau derbyniol ar gyfer apelio ........ 3
Gwrthdaro buddiannau ........ 4
Rhoi ystyriaeth gychwynnol i apêl ........ 4
Y Panel Apêl ........ 4
Ymateb i'r apêl ........ 5
Dogfennau ar gyfer y Panel Apêl ........ 5
Penderfyniadau'r Panel Apêl ........ 6
**Atodiad 1: Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Asiantaethau DMiAU ........ 8**

# Cyflwyniad

1 Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (AU). Mae Cynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i AU ('y Cynllun Cydnabod') yn darparu'r fframwaith rheoleiddio y mae QAA yn ei ddefnyddio i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn. O dan y fframwaith hwn, mae QAA yn trwyddedu sefydliadau i ddatblygu, dilysu, cymeradwyo a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU. Yr enw a roddir ar sefydliad sydd wedi ei drwyddedu gan QAA at y dibenion hyn yw Asiantaeth Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaeth DMiAU').

2 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefnau ar gyfer ystyried apêl a wnaed gan Asiantaeth DMiAU (neu sefydliad sydd wedi gwneud cais am fod yn Asiantaeth DMiAU) yn erbyn argymhelliad i Fwrdd QAA a wnaed gan y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU):

- y dylid gwrthod rhoi Trwydded Asiantaeth DMiAU
- y dylid tynnu Trwydded Asiantaeth DMiAU yn ei hôl, neu
- ynglŷn â chyfnod dilysrwydd Trwydded Asiantaeth DMiAU

3 Dyma'r unig amgylchiadau lle mae'r Drefn Apelio hon yn berthnasol.

## Diffiniadau

**Apelydd**: Asiantaeth DMiAU drwyddedig neu sefydliad sy'n gwneud cais am Drwydded Asiantaeth DMiAU sy'n apelio yn erbyn argymhelliad a wnaed i Fwrdd QAA mewn perthynas â Thrwydded Asiantaeth DMiAU.

**Trwydded Asiantaeth DMiAU**: Trwydded a ddyfernir gan QAA sy'n caniatáu i gyrsiau Mynediad i AU gael eu datblygu, eu dilysu a'u cymeradwyo, ac i Ddiplomâu gael eu dyfarnu, gan Asiantaethau DMiAU.

**Adolygwr Annibynnol**: Mae hwn yn adolygwr sydd â phrofiad ym methodoleg y gweithgareddau sydd o dan sylw yn yr apêl, nad yw wedi ymwneud o gwbl â'r gweithgareddau monitro a arweiniodd at argymhelliad i Fwrdd QAA mewn perthynas â Thrwydded Asiantaeth DMiAU, ac sydd heb unrhyw wrthdaro buddiannau â'r Apelydd.

**Cadeirydd y Panel Apêl**: Bydd Cadeirydd y Panel Apêl yn cadeirio panelau apêl QAA ymhob un o'i dulliau, ac yn arwain y drafodaeth am gyflwyniad apêl.

**Cynghorydd Arbenigol**: Mae hwn yn aelod o staff QAA nad yw wedi ymwneud o gwbl â'r gweithgareddau monitro sydd o dan sylw yn yr apêl, a arweiniodd at argymhelliad i Fwrdd QAA mewn perthynas â Thrwydded Asiantaeth DMiAU, ond sy'n gallu rhoi cyngor arbenigol am y trefniadau monitro a'r broses berthnasol.

**Panel Apêl**: Cynulliad yr Adolygwyr Annibynnol mewn rhith-gyfarfod i drafod yr apêl.

## Gwneud apêl

4 Mae QAA yn gwahaniaethu rhwng cwynion ac apeliadau. Yn ein barn ni, pan fydd rhywun yn cwyno maent yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r gwasanaethau a ddarparwn neu bethau a wnawn. Mae gan QAA drefn gwyno ar wahân. Mae apeliadau'n heriau penodol i un o'r argymhellion a wneir i Fwrdd QAA sydd wedi eu rhestru uchod (paragraff 2), a chânt eu trin drwy'r weithdrefn yma.

5 Os na fydd Asiantaeth DMiAU, neu sefydliad sy'n gwneud cais am Drwydded Asiantaeth DMiAU, yn fodlon â chanlyniad unrhyw weithred neu feirniadaeth a wneir gan QAA mewn perthynas ag unrhyw weithgareddau nad ydynt wedi eu rhestru ym mharagraff 2, y dull gweithredu cywir yw dilyn trefn gwyno QAA. Os nodir unrhyw bryderon neu gwestiynau o'r fath, dylid cysylltu ar ahe@qaa.ac.uk yn y lle cyntaf. Pan gyflwynir apêl sy'n ymwneud â materion sy'n perthyn yn gyflawn i'r drefn gwyno, bydd y broses o ystyried y gŵyn honno'n cael ei gohirio nes bydd y weithdrefn ar gyfer ymdrin â'r apêl wedi ei chwblhau, fel nad yw'r broses o ymchwilio'r gŵyn yn rhagfarnu'r broses o ymdrin â'r apêl, ac fel na cheir yr argraff bod hyn yn digwydd. Dan amgylchiadau eithriadol, gall y Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol amrywio hyn os bernir bod y gŵyn yn angenrheidiol.

6 Rhaid i Swyddog Cyfrifol yr Asiantaeth DMiAU dan sylw, neu uwch aelod cyfatebol o staff y sefydliad sy'n gwneud cais am Drwydded Asiantaeth DMiAU neu am gael ei hadnewyddu, gyflwyno'r apêl gan ddefnyddio'r Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Asiantaethau DMiAU (gwelwch Atodiad 1). Nid yw apeliadau ar lafar yn dderbyniol. Dylid anfon y ffurflenni cyflawn at governance@qaa.ac.uk. Mae apeliadau a gyflwynir mewn unrhyw ffurf arall heblaw hwnnw ar y Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Asiantaethau DMiAU yn annerbyniol, a byddwn yn eu dychwelyd.

7 Mae'n rhaid cyflwyno apêl o fewn 10 diwrnod gwaith wedi i'r Asiantaeth DMiAU gael gwybod am yr argymhelliad a wnaed i Fwrdd QAA:

- y dylid gwrthod rhoi Trwydded Asiantaeth DMiAU
- y dylid tynnu Trwydded Asiantaeth DMiAU yn ei hôl, neu
- ynglŷn â chyfnod dilysrwydd Trwydded Asiantaeth DMiAU

8 Pan fydd y dyddiad cau ar gyfer derbyn yr apêl yn digwydd bod ar ddyddiad nad yw'n ddiwrnod gwaith, byddwn yn ei newid i'r diwrnod gwaith canlynol. Byddwn yn gwneud newidiadau hefyd i roi ystyriaeth i ddyddiadau cau QAA. Rhoddir cydnabyddiaeth o fewn tri diwrnod gwaith o'i derbyn fel arfer bod yr apêl honno wedi cael ei derbyn.

9 Rhaid i Asiantaeth DMiAU sy'n gwneud apêl enwebu person cyswllt i gysylltu ag QAA. Ni fydd QAA yn trafod yr apêl gydag unrhyw unigolyn arall heblaw'r Swyddog Cyfrifol neu'r person cyswllt enwebedig. Fel arfer, person cyswllt QAA fydd y Pennaeth Llywodraethu[1] neu ei enwebai a fydd yn rhoi gwybodaeth am gynnydd i'r Apelydd yn rheolaidd. Ar ôl cyflwyno apêl, rhaid gwneud unrhyw gysylltiad pellach yn ymwneud â'r mater hwn gydag QAA drwy ei Thîm Llywodraethu.

10 Fel arfer, bydd y drefn apelio wedi ei chwblhau o fewn 12 wythnos i dderbyn yr apêl. Efallai y bydd yn rhaid ymestyn y cyfnod hwn dan rai amgylchiadau. Ar ddechrau'r broses apelio, bydd y Tîm Llywodraethu'n hysbysu'r Asiantaeth DMiAU am amseriad tebygol y broses.

[1] Yn y drefn yma, gallai'r holl gyfeiriadau at y Pennaeth Llywodraethu gynnwys unrhyw unigolyn a enwebwyd i weithredu ar ei ran.

## Y beirniadaethau y gellir apelio yn eu herbyn a'r seiliau derbyniol ar gyfer apelio

11 Yr unig bryd y gellir ystyried apêl yw pan fydd pob cam o weithgareddau trwyddedu a monitro Asiantaeth DMiAU wedi eu cwblhau ac y mae'r sefydliad neu'r Asiantaeth DMiAU sy'n gwneud y cais wedi cael eu hysbysu am yr argymhelliad bod y Pwyllgor RhThrMiAU yn mynd gerbron Bwrdd QAA i dderbyn penderfyniad terfynol.

12 Gellir gwneud apêl ar un, neu bob un, o'r seiliau a ganlyn:

**Y Weithdrefn**

Bod afreoleidd-dra trefniadol yn y ffordd y gweithredir y gweithgareddau monitro, a bod hwnnw'n bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd y penderfyniad neu'r penderfyniadau a wnaethpwyd. Dyma rai esiamplau o hyn: gweithdrefnau y cytunwyd arnynt (fel y maent wedi eu diffinio yn y Cynllun Cydnabod ar gyfer y Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Y Trefniadau Monitro Mynediad i AU, neu drefniadau y cytunwyd arnynt ar wahân mewn ysgrifen rhwng QAA a'r Apelydd); gwneud penderfyniadau sy'n anghymesur; methu â chymryd gwybodaeth berthnasol i ystyriaeth neu gymryd gwybodaeth amherthnasol i ystyriaeth.

**Deunydd newydd**

Mae deunydd a oedd yn bodoli ar y pryd pan wnaed y gweithgareddau monitro, a fyddai, pe bai ar gael cyn hynny, wedi dylanwadu ar y beirniadaeth(au) a oedd yn hysbysu'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor RhThrMiAU i Fwrdd QAA, ac y mae rheswm da yn y cyswllt hwn pam nad oedd ar gael o'r blaen i QAA.

13 Ni ystyrir fod y canlynol yn 'rhesymau da' dros fethu â darparu deunydd sy'n ofynnol ar y sail ei fod yn 'ddeunydd newydd': honiad na ofynnwyd i weld y deunydd newydd yn benodol, a dim rheswm arall, neu honiad bod cyfyngiad ar nifer y dogfennau y gellir eu llwytho wedi cyfyngu ar allu'r Apelydd i gyflwyno'r deunydd newydd.

14 Dylai'r Apelydd ddisgrifio'n glir ac yn gryno yn y Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Asiantaethau DMiAU sut mae'n ystyried bod y gweithgareddau'n wallus ar sail y rhesymau dros yr apêl sydd wedi eu disgrifio ym mharagraff 12. Trwy wneud hynny, dylai'r Apelydd nodi'n glir beth yw'r diffygion honedig a arweiniodd at yr argymhelliad a wnaed i Fwrdd QAA. Gallai'r Apelydd gyflwyno tystiolaeth i atgyfnerthu ei honiad, a dylid ei labelu a chyfeirio ati'n glir. Mae'n rhaid cyflwyno'r Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Asiantaethau DMiAU gyflawn a'r holl dystiolaeth gysylltiedig erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apeliadau. Cyfrifoldeb yr Apelydd yw sicrhau bod y Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Asiantaethau DMiAU yn cael ei llenwi'n glir ac yn gryno a bod yr holl dystiolaeth berthnasol wedi ei darparu. Bydd QAA yn prosesu pob apêl yn y ffurf wreiddiol y cawsent eu cyflwyno ac ni fydd yn ceisio unrhyw eglurhad neu ehangiad.

15 Rhoddwyd hysbysiad cydymffurfio i QAA mewn perthynas â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â'n hysbysiad cydymffurfio, byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ystyried apeliadau. Gellir cyflwyno apeliadau yn y Gymraeg, yn y Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn ymateb i bob apêl yn iaith y cyflwyniad heblaw pan geir cais i wneud fel arall. Os bydd angen cyfieithu, bydd cyfle i'r Apelydd adolygu'r cyfieithiad cyn ei roi i'r adolygwyr.

## Gwrthdaro buddiannau

16 Penodir yr Adolygwr Annibynnol, aelodau'r Panel Apêl, a'r Cynghorydd Arbenigol (paragraffau 18, 23 a 25 isod) o blith adolygwyr profiadol neu Swyddogion QAA profiadol sydd heb ymwneud o gwbl gynt â'r gweithgareddau sydd dan sylw yn yr apêl. Cedwir rhestr o arbenigwyr at y diben hwn.

17 Mae gan QAA weithdrefn gadarn ar gyfer osgoi gwrthdaro buddiannau[2] sy'n berthnasol i unrhyw un sy'n ymwneud â gwaith i QAA.

## Rhoi ystyriaeth gychwynnol i apêl

18 Pan fydd yn derbyn apêl, bydd QAA yn ei chyfeirio at Adolygwr Annibynnol i'w hystyried yn gychwynnol.

19 Bydd yr Adolygwr Annibynnol yn ystyried:

- adroddiadau sy'n deillio o weithgareddau trwyddedu neu fonitro,
- y Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Asiantaethau DMiAU a gyflwynwyd gan yr Apelydd, ac
- unrhyw gyflwyniad a wnaed gan yr Apelydd ar ôl derbyn adroddiadau gan QAA.

20 Gall yr Adolygwr Annibynnol geisio cyngor gan Dîm Llywodraethu QAA ar sut i weithredu'r drefn yma.

21 Gall yr Adolygwr Annibynnol wrthod yr apêl, neu unrhyw ran ohoni, dim ond os bydden nhw'n penderfynu nad oes siawns realistig bod yr apêl, neu unrhyw ran ohoni, yn mynd i gael ei chadarnhau. Bydd yr Adolygwr Annibynnol yn esbonio ei resymau am wrthod yr apêl neu unrhyw ran ohoni. Ymhob achos arall, bydd yr Adolygwr Annibynnol yn cyfeirio'r apêl neu'r rhannau sy'n weddill ohoni at y Panel Apêl.

22 Pan fydd yr Adolygwr Annibynnol yn gwrthod apêl neu unrhyw ran ohoni, hysbysir yr Apelydd mewn ysgrifen am y penderfyniad hwn a'r rhesymau am wrthod yr apêl neu'r rhannau perthnasol ohoni. Ni fydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Adolygwr Annibynnol, nac i ofyn iddo gael ei adolygu.

## Y Panel Apêl

23 Pan fydd yr Adolygwr Annibynnol wedi cyfeirio'r apêl at Banel Apêl, bydd y Tîm Llywodraethu'n galw Panel Apêl ynghyd i ystyried yr apêl. Bydd y Panel Apêl yn cynnwys o leiaf ddau Adolygwr Annibynnol, y bydd un ohonynt yn cael ei wahodd i weithredu fel Cadeirydd.

24 Darperir cefnogaeth weinyddol, ysgrifenyddol a gweithdrefnol i'r Panel Apêl gan Swyddogion Llywodraethu QAA sydd heb gyfrannu mewn unrhyw ffordd i weithrediad y gweithgareddau trwyddedu neu fonitro nag unrhyw ymwneud blaenorol â'r gweithgareddau dan sylw yn yr apêl.

25 Bydd Cynghorydd Arbenigol ar gael i gynghori'r Panel Apêl ar weithrediad y broses o drwyddedu neu fonitro Asiantaeth DMiAU. Bydd y Cynghorydd Arbenigol yn Adolygwr/Swyddog QAA profiadol sydd heb ymwneud o gwbl gynt â'r gweithgareddau trwyddedu neu fonitro sydd dan sylw. Ni fydd y Cynghorydd Arbenigol yn derbyn nac yn ystyried y dogfennau sy'n rhan o'r apêl ar unrhyw gam yn y broses, a dim ond pan ofynnir am hynny gan y Panel Apêl y bydd yn cynghori ar faterion gweithdrefnol.

[2] https://www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni/ein-trefn-reoli/polisïau-qaa

26 Gall y Panel Apêl, ar unrhyw gam yn y broses, geisio cyngor gan y Tîm Llywodraethu a/neu'r Swyddog QAA ar sut i weithredu'r drefn yma, a gallent, yn eu tro, geisio cyngor cyfreithiol allanol, os ydynt yn ei ystyried yn angenrheidiol.

## Ymateb i'r apêl

27 I helpu Panel Apêl gyda'i ystyriaethau, bydd y Tîm Llywodraethu, sy'n gweithredu ar ran y Panel Apêl, yn gofyn i'r Swyddog QAA sy'n gyfrifol am weithgareddau trwyddedu neu fonitro'r Asiantaeth DMiAU dan sylw, ymateb i'r apêl ar ran y Pwyllgor RhThrMiAU. Bydd y Swyddog QAA yn cydlynu ymateb, gan gynnwys sylwadau am unrhyw awgrymiad o ddiffyg gweithdrefnol yn y ffordd y gweithredir y gweithgareddau, ac am unrhyw faterion eraill a godwyd yn yr apêl.

28 Bydd QAA yn rhoi'r ymateb a dderbynnir, yn unol â pharagraff 27, i'r Apelydd o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a osodir ar gyfer y Panel Apêl. Gallai'r Apelydd roi sylwadau ysgrifenedig am yr ymateb hwnnw, a bydd y Panel Apêl yn ystyried y sylwadau ysgrifenedig hynny hefyd. Dylai'r Tîm Llywodraethu dderbyn ymateb yr Apelydd o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y dyddiad a osodir ar gyfer y Panel Apêl.

29 Gallai'r Panel Apêl, ar unrhyw gam yn y broses, ofyn i'r Tîm Llywodraethu gael rhagor o wybodaeth neu eglurhad gan yr Apelydd a/neu'r Swyddog QAA. Darperir copi o unrhyw wybodaeth neu eglurhad o'r fath i'r ochr arall, a bydd ganddynt hwythau'r hawl i roi sylwadau.

## Dogfennau ar gyfer y Panel Apêl

30 Bydd y dogfennau i'w hystyried gan y Panel Apêl yn cynnwys:

- adroddiadau sy'n deillio o weithgareddau trwyddedu neu fonitro,
- dogfennaeth gyhoeddedig QAA sy'n ymwneud â gweithredu gweithgareddau trwyddedu neu fonitro Asiantaethau DMiAU
- y Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Asiantaethau DMiAU
- ymateb y Swyddog QAA, fel y mae wedi ei ddisgrifio ym mharagraff 27
- unrhyw sylwadau a dderbynnir gan yr Apelydd am sylwadau'r tîm adolygu, fel y maent wedi eu darparu ym mharagraff 28.

31 Ni fydd y Panel Apêl yn ystyried unrhyw ddogfen nad yw'r darparwr yn gwybod amdani ac nad yw'r Apelydd wedi ei derbyn cyn cyfarfod y Panel Apêl ar gyfer ystyried y dogfennau.

32 Bydd y Pennaeth Llywodraethu[3] neu ei enwebai'n gweithredu fel ysgrifennydd i'r Panel Apêl.

33 Bydd y Panel Apêl fel arfer yn gwneud penderfyniad am apêl yng nghyfarfod y Panel, heb orfod derbyn unrhyw osodiadau eraill. Fodd bynnag, efallai y bydd y Panel Apêl, yn ôl ei ddewis ei hun yn unig, yn gofyn i'r Tîm Llywodraethu wahodd aelodau uwch o'r Apelydd, ac/neu aelodau tîm monitro neu'r Pwyllgor RhThrMiAU, i gyfarfod dan amgylchiadau eithriadol os bydd y Panel Apêl yn ystyried bod angen eglurhad pellach ar gyfer rhai materion. Dewis y Panel Apêl yn unig fydd y weithdrefn yn y cyfarfod. Ni fydd hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol mewn cyfarfod o'r fath. Ni fydd y Panel Apêl yn derbyn gosodiadau ar lafar o dan unrhyw amgylchiadau eraill.

[3] Yn y drefn yma, gallai'r holl gyfeiriadau at y Pennaeth Llywodraethu gynnwys unrhyw unigolyn a enwebwyd i weithredu ar ei ran.

## Penderfyniadau'r Panel Apêl

34 Bydd y Panel Apêl yn canolbwyntio ar y broses a'r casgliadau a arweiniodd at y beirniadaethau y gellir apelio yn eu herbyn.

35 Bydd y Panel Apêl yn cadarnhau bod yr apêl yn ddilys os bydd yn casglu, o ystyried tebygolrwydd y ddwy ochr, bod:

- afreoleidd-dra trefniadol yn y ffordd y gweithredwyd y gweithgareddau trwyddedu neu fonitro, i'r fath fodd nes ei fod yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd y penderfyniadau a wnaethpwyd; ac/neu
- mae deunydd a oedd yn bodoli ar y pryd pan wnaed y penderfyniad, a fyddai, pe bai ar gael cyn i'r gweithgareddau gael eu cwblhau, wedi dylanwadu ar y beirniadaethau, ac y mae rheswm da yn y cyswllt hwn pam nad oedd ar gael i QAA.

36 Fel arall, bydd y Panel Apêl yn gwrthod yr apêl a bydd yn penderfynu cadarnhau'r beirniadaethau gwreiddiol.

37 Pan fydd y Panel Apêl yn cadarnhau bod yr apêl yn ddilys, gall wneud unrhyw un o'r canlynol:

- dirymu'r feirniadaeth a gafwyd o ganlyniad i'r gweithgareddau trwyddedu neu fonitro yr effeithir arnynt (dim ond pan fydd y Panel Apêl yn penderfynu bod y rheswm dros gadarnhau'r apêl yn ddigon systemig a difrifol i fwrw amheuaeth ar ddilysrwydd y gweithgareddau cyfan y dewisir yr opsiwn yma)
- dirymu unrhyw un o'r beirniadaethau yr effeithir arnynt, neu bob un ohonynt.

38 Pan fydd y Panel Apêl yn dirymu'r gweithgareddau trwyddedu neu fonitro yr effeithir arnynt, bydd Swyddog QAA newydd yn gwneud gweithgareddau newydd, ar sail cyflwyniad newydd o dystiolaeth gan y sefydliad neu'r Asiantaeth DMiAU sy'n gwneud cais.

39 Pan fydd y Panel Apêl yn dirymu un neu fwy o'r beirniadaethau yr effeithir arnynt, y Rheolwr Mynediad i AU neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio fydd yn penderfynu ar gwmpas unrhyw weithgareddau dilynol, gan ddilyn yr egwyddorion canlynol:

- Fel arfer, bydd argymhellion yr apelir yn eu herbyn yn llwyddiannus ar sail gweithdrefn yn achosi i Swyddog newydd adolygu tystiolaeth bresennol sy'n ymwneud â'r argymhelliad hwnnw.
- Fel arfer, bydd argymhellion yr apelir yn eu herbyn yn llwyddiannus ar sail deunydd newydd yn achosi i'r Swyddog presennol ailystyried yr argymhelliad a ddirymir, er mwyn rhoi ystyriaeth i'r deunydd newydd a gyflwynir yn yr apêl.
- Os apelir yn erbyn argymhelliad yn llwyddiannus ar sail gweithdrefn ac ar sail deunydd newydd, bydd y camau cywiro sydd wedi eu disgrifio uchod ar gyfer apeliadau llwyddiannus ar sail gweithdrefn hefyd yn berthnasol, heblaw bod y Swyddog newydd yn rhoi ystyriaeth hefyd i'r deunydd newydd a gyflwynir.

40 Bydd y Rheolwr Mynediad i AU neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio'n rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a roddwyd gan y Panel Apêl, ond bydd yn pennu union rychwant a chwmpas yr ail adolygiad o'r argymhellion, er mwyn sicrhau y bydd yr ail adolygiad yn angenrheidiol ac yn gymesur. Bydd y Rheolwr Mynediad i AU, neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio, wedi ei dywys gan y rhestr o opsiynau uchod ond bydd yn cadw'r hawl i orchymyn bod gweithgareddau cwbl newydd yn cael eu gwneud, os bydd o'r farn y byddai hynny'n decach i'r sefydliad neu'r Asiantaeth DMiAU sy'n gwneud cais. Penderfyniad y Rheolwr Mynediad i AU neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio yw'r penderfyniad terfynol.

41 Bydd y Panel Apêl yn rhoi'r rhesymau am ei benderfyniad.

42 Mae penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol. Ni fydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Panel Apêl, nac i ofyn iddo gael ei adolygu.

43 Bydd y Tîm Llywodraethu'n rhoi gwybod i Brif Swyddog y sefydliad neu'r Asiantaeth DMiAU sy'n gwneud cais neu'r person cyswllt enwebedig beth yw canlyniad ystyriaethau'r Panel Apêl, a hynny o fewn saith diwrnod gwaith i ddyddiad cyfarfod y Panel Apêl fel arfer.

44 Os gwrthodir yr apêl, anfonir argymhelliad y Pwyllgor RhThrMiAU:

- y dylid gwrthod rhoi Trwydded Asiantaeth DMiAU
- y dylid tynnu Trwydded Asiantaeth DMiAU yn ei hôl, neu
- ynglŷn â chyfnod dilysrwydd Trwydded Asiantaeth DMiAU

at Fwrdd QAA.

Os gwneir argymhelliad y dylid tynnu Trwydded yr Asiantaeth DMiAU yn ei hôl, cychwynnir y gweithdrefnau ar gyfer tynnu'r Drwydded yn ei hôl sydd wedi eu nodi'n fanwl yn y *Trefniadau Trwyddedu Mynediad i AU*.

45 Unwaith y bydd yr Asiantaeth DMiAU wedi derbyn gwybodaeth am benderfyniad y Panel Apêl, bydd y drefn apelio wedi ei chwblhau.

46 Mae QAA wedi ei hymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib, ac i weithio mewn ffordd agored ac atebol. Mae hyn yn cynnwys ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i dderbyn adborth y mae'r broses apelio'n eu darparu. Cyfathrebir y gwersi a ddysgwyd i'r tîm Mynediad i AU a rhoddir adroddiad amdanynt i Fwrdd QAA.

# Atodiad 1: Ffurflen Gyflwyno Apêl ar gyfer Asiantaethau DMiAU

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd ar wefan QAA.

| | |
|---|---|
| **Enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r apêl** | |
| **Cyfeiriad y sefydliad sy'n cyflwyno'r apêl** | |

| **Pob beirniadaeth y gwneir yr apêl yn ei herbyn (gwelwch nodyn (i) isod)** | **Ticiwch os ydych yn apelio ar sail 'Gweithdrefn' (gwelwch nodyn (ii) isod)** | **Ticiwch os ydych yn apelio ar sail 'Deunydd Newydd' (gwelwch nodyn (iii) isod)** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**Nodyn (i)** Dim ond yr argymhellion a ganlyn a wneir i Fwrdd QAA y gellir apelio yn eu herbyn: **y dylid gwrthod rhoi Trwydded Asiantaeth DMiAU**, **y dylid tynnu Trwydded Asiantaeth DMiAU yn ei hôl**, neu **ynglŷn â chyfnod dilysrwydd Trwydded Asiantaeth DMiAU**. Rhaid i'r Apelydd ddangos beth yw sail yr apêl (dylid ticio un neu'r ddau os ydynt yn briodol, gwelwch nodyn (ii) a (iii) isod).

**Nodyn (ii)** Mae 'Gweithdrefn' yn cyfeirio at afreoleidd-dra yn y ffordd y gweithredir y gweithgareddau trwyddedu i'r fath fodd nes ei fod yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd y penderfyniad neu'r penderfyniadau a wnaethpwyd.

**Nodyn (iii)** Mae 'Deunydd Newydd' yn cyfeirio at ddeunydd a oedd yn bodoli ar y pryd pan wnaed y penderfyniad, a fyddai, pe bai ar gael cyn i'r gweithgareddau trwyddedu gael eu cwblhau, wedi dylanwadu ar yr argymhellion, ac yn y cyswllt hwn, mae'n rhaid i chi ddarparu rheswm da pam nad oedd ar gael i QAA.

| Disgrifiwch isod (neu ar ddalen arall o bapur) sut mae'r gweithgareddau trwyddedu'n wallus yn eich barn chi, ar sail yr apêl yr ydych wedi ei dethol ar y dudalen flaenorol, gan sicrhau eich bod yn nodi'n glir beth yw'r diffygion honedig a arweiniodd at bob un o'r beirniadaethau yr ydych yn apelio yn eu herbyn (rhifwch eich cyflwyniad yn y ffordd briodol). | |
|---|---|
| **Esboniad o'r apêl** | **Rhif cyfeirnod y ddogfen gefnogol** |
| | |

| **Y person cyswllt enwebedig yn y sefydliad sy'n gwneud yr apêl** | |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Teitl** | |
| **Rhif ffôn cyswllt** | |
| **Cyfeiriad ebost** | |

Ar ran y sefydliad sydd wedi ei enwi ar dudalen 1 y ffurflen yma, rwy'n cadarnhau bod y cyflwyniad yma'n gyfystyr â'r apêl yn ei chyfanrwydd, a bod yr wybodaeth sydd yn y fan yma'n gywir ac yn gyflawn.

| **Llofnodwr awdurdodedig y sefydliad sy'n gwneud yr apêl** | |
|---|---|
| **Llofnod** | |
| **Enw** | |
| **Teitl** | |
| **Dyddiad** | |

Dylech anfon y ffurflen yma, sydd wedi ei chwblhau'n briodol, unrhyw ddogfennaeth gefnogol, a'r holl ohebiaeth ddilynol sy'n ymwneud â'r apêl, yn uniongyrchol at governance@qaa.ac.uk.

**Nodwch: Peidiwch ag anfon gohebiaeth sy'n ymwneud â'r apêl at unrhyw aelod o'r tîm Mynediad i AU, os gwelwch yn dda.**

Cyhoeddwyd ar 29 Mai 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk